ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – adroddiad arfer da.

Adroddiadau Cylch Gwaith Estyn

Ymateb Llywodraeth Cymru

| |
|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>**Disgyblion ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd – adroddiad arfer da.** |
| **Manylion yr adroddiad**<br><br>Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn adolygu darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed a gynhelir dan y fframwaith statudol presennol a'r trefniadau a osodwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. |
| **Crynodeb o'r prif ganfyddiadau**<br><br>**Cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA**<br>Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelodd Estyn â nhw, canfuwyd bod staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau eu bod yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar. Canfuwyd mai'r ysgolion mwyaf llwyddiannus o ran sicrhau bod cymorth arbenigol ar waith oedd y rhai oedd yn eiriol yn gryf dros eu disgyblion, ac yn herio'n gadarn pan nad oedd y cymorth a ddarparwyd yn diwallu anghenion y disgyblion.<br><br>**Ymgysylltu ag eraill i gefnogi disgyblion ag AAA**<br>Yn ôl yr adroddiad, mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelodd Estyn â nhw mae monitro cynnydd ar gyfer disgyblion ag AAA yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o les disgyblion a beth sy'n bwysig i bob plentyn. Yn yr ysgolion hyn, canfu Estyn bod staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i olrhain cynnydd disgyblion mewn meysydd fel ymddygiad, presenoldeb a'r cynnydd a wneir tuag at y targedau yn eu Cynlluniau Addysg Unigol. Roedd hyn yn darparu golwg fwy cyflawn i staff o'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud<br><br>**Arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer AAA**<br>Ym mron yr holl ysgolion yr ymwelodd Estyn â nhw, canfuwyd bod uwch arweinwyr yn sefydlu gweledigaeth ac ethos cynhwysol iawn sy'n pennu dyheadau uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion, beth bynnag eu galluoedd a'u hanghenion. Canfu Estyn yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy bod arweinwyr yn darparu hyfforddiant arbenigol wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer staff er mwyn cefnogi disgyblion ag AAA. |
| **Dylai Llywodraeth Cymru:**<br><br>**A5 Gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystod cyfnod gweithredu'r trefniadau statudol newydd er mwyn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**<br><br>**Derbyn** – Bydd y system ADY newydd yn dechrau cael ei rhoi ar waith fesul |

| |
|---|
| cam o fis Medi 2021 ymlaen, gyda'r rolau statudol a grëwyd dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 yn cychwyn ym mis Ionawr 2021.<br><br>Mae'r Ddeddf yn rhan o'r rhaglen drawsnewid ADY sydd eisoes yn mynd rhagddi. Rydym wedi ymrwymo pecyn o fuddsoddiad gwerth £20 miliwn i'r rhaglen drawsnewid ADY yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn.<br><br>Mae'n harweinwyr trawsnewid ADY yn darparu cyngor, cymorth a her i awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach wrth iddynt baratoi i roi'r system ADY newydd ar waith.<br><br>Bydd cyfran sylweddol o'r cyllid trawsnewid ADY yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg er mwyn helpu i adeiladu gallu o fewn y system a gwella canlyniadau i ddysgwyr. Wrth ochr cynnig dysgu proffesiynol i bob athro, rydym yn datblygu cynnig dysgu proffesiynol penodol ar gyfer Cydlynwyr ADY a fydd yn darparu rôl arwain strategol ac yn fan cyswllt cyntaf i gael cyngor ac arweiniad ADY proffesiynol mewn ysgolion a cholegau. |
| **Mae'r adroddiad yn gosod yr argymhellion canlynol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol:**<br><br>**Dylai ysgolion:**<br><br>A1 Wella ansawdd targedau yn CAUau disgyblion er mwyn hyrwyddo cynnydd disgyblion mewn dysgu ac annibyniaeth<br><br>A2 Sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso yn rhoi mwy o sylw i'r cynnydd a wna disgyblion ag AAA o ran eu hanghenion, eu galluoedd a'u mannau cychwyn unigol<br><br>**Dylai awdurdodau lleol:**<br><br>A3 Gynorthwyo ysgolion i gael y gwasanaethau arbenigol allanol y mae eu hangen arnynt i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion ag AAA<br><br>A4 Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion arbennig ac ysgolion eraill a gynhelir yn yr awdurdod lleol<br><br>Bydd Is-adran Cymorth i Ddysgwyr y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ysgrifennu at awdurdodau lleol i dynnu eu sylw at yr argymhellion sy'n cael eu gosod arnynt hwy ac ar ysgolion gan yr adroddiad hwn. |
| **Manylion cyhoeddi.**<br><br>Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar 23 Ionawr, a gellir ei weld ar wefan Estyn: https://www.estyn.gov.wales/ |

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol 978-1-80038-062-2

© hawlfraint y Goron Ionawr 2020
WG39975